EGLWYS EMAUS BANGOR

# Y NEGESYDD

## MIS HYDREF 2025

## GAIR GAN Y GWEINIDOG

### NEWID MEDDWL

***"O hyn ymlaen rhaid i chi beidio ymddwyn yr un fath â phobl sydd ddim yn credu. Gadewch i Dduw newid eich bywyd chi'n llwyr drwy chwyldroi eich ffordd o feddwl am bethau. Byddwch yn gwybod wedyn beth mae Duw eisiau, ac yn gweld fod hynny'n dda ac yn ei blesio fo, ac mai dyna'r peth iawn i'w wneud."***

*( Rhufeiniaid 12:2 )*



**Trey McCain wrth ei waith yn y Banc Bwyd**

### DYLANWADAU

Ydych chi'n gweld Cristnogaeth fel dylanwad sy'n newid eich meddwl? Wrth i Paul siarad gyda Christnogion newydd o wahanol gefndiroedd oedd yn byw yn Rhufain, mae o'n eu hannog adael i Dduw drawsnewid eu ffordd o feddwl am bethau yn hytrach na cadw at bopeth mae nhw wedi ei dderbyn oddi wrth eu magwraeth a'u diwylliant.

Yn syml, mae dilyn Crist, yn ôl Paul, yn golygu gadael iddo newid eich meddwl am rai pethau.

### 'SOUTHERN BAPTISTS'

Trey McCain, brodor o Mississipi sydd bellach yn byw yn Nyffryn Nantlle, oedd un o westeion John Roberts ar y rhaglen **Bwrw Golwg** *(Dylanwad yr Unol Daleithiau ar eglwysi Cymru BBC CYMRU Awst 31)* yn ddiweddar. Yn aelod yn Eglwys Caersalem Caernarfon, y fo yw pennaeth Banciau Bwyd Arfon ac mae wedi bod yn gwneud gwaith Cristnogol Cymunedol yn Nyffryn Nantlle ers nifer o flynyddoedd erbyn hyn.

Daeth Trey a nifer o Americanwyr eraill i Gymru dan gynllun arbennig i

hybu cenhadaeth Gristnogol ymhlith y gwledydd Celtaidd drwy gyfrwng yr ieithoedd brodorol. Mae gweinyddwr y cynllun, John Robinson, hefyd wedi gwneud ei gartref yn Nyffryn Nantlle ers blynyddoedd bellach. Mae Trey a'i wraig, sy'n rhugl yn y Gymraeg, yn magu eu tair merch ifanc ar eu haelwyd yn Nyffryn Nantlle ac wedi dod yn rhan annatod a gwerthfawr o'u cymuned.

**CRISTNOGAETH A'R UDA**

Un rheswm am gyfweld â Trey ac Americanwyr eraill ar Bwrw Golwg oedd bod Arlywydd yr Unol Daleithiau, Donald Trump yn ymddangos ar ein sgriniau'n gyson y dyddiau hyn ac wrth imi ysgrifennu'r geiriau yma, mae ymweliad rhwysgfawr Trump â Phrydain newydd ddirwyn i ben. Mae deall perthynas Cristnogaeth a gwleidyddiaeth yn yr Unol Daleithiau yn reit heriol i ni Gristnogion yng Nghymru ac mae hi'n anodd os nad amhosib uniaethu gyda llawer o'r hyn sy'n cael ei ddweud gan Gristnogion blaenllaw dros y dwr. Wedi ei fagu yn ***'Southern Baptist'***, roedd Trey yn cymryd yn ganiataol mai'r agwedd Gristnogol at ryfel oedd cefnogi'r llywodraeth a'r fyddin a'r dehongliad naturiol wrth i'r Unol Daleithiau ymyrryd mewn gwahanol wledydd oedd eu bod yn mynd yno "i gynnig democratiaeth iddyn nhw".

**HEDDYCHIAETH A CHYFIAWNDER**

Ond ar ôl dod i Gymru, y daeth Trey yn ymwybodol fod yna ffordd gwbl wahanol a heddychol o edrych ar bethau yma. Daeth i sylweddoli gymaint o ddylanwad mae'n diwylliant ni'n medru gael ar ein ffydd yn hytrach na'n bod ni'n gwrando ar Grist a chymaint yr oedd Trey ei hun wedi cymryd yn ganiataol heb gwestiynnu cyn dod yma. Wrth edrych yn ôl, roedd yn gweld sut roedd Duw wedi defnyddio ei gyswllt gyda Chymru i'w newid – newid sut oedd yn darllen y Beibl a sut oedd o'n gweld Crist. Wrth dreulio amser yma yng Nghymru, roedd Trey wedi darganfod y Crist sy'n camu i mewn i frwydrau'r byd, y Crist sydd am weld cyfiawnder yn ternasu ac wedi dod i ddeall bod cyfiawnder yn hollbwysig i sicrhau heddwch.

**AILFEDDWL**

Diolch i Trey am fod mor onest ynglyn â newid meddwl ar faterion digon allweddol yn ein dyddiau ni ac i John Roberts am greu rhaglen mor ddiddorol. Tybed oes na faterion y mae Crist am i ninnau ailfeddwl ac ailddehongli yn ein dyddiau ni? Gadewch i ni fod yn ddigon agored i ddysgu ganddo drwy ein gilydd ***"beth mae Duw eisiau, ac yn gweld fod hynny'n dda ac yn ei blesio fe, ac mai dyna'r peth iawn i'w wneud."***



# GWASANAETH I NODI CYMORTH CRISTNOGOL YN 80 OED ELENI

Ar Awst y 24ain eleni, daeth cynulleidfaoedd Bethania y Felinheli, Berea Newydd ac Emaus Bangor ynghyd yn Berea Newydd ar gyfer Gwasanaeth Undebol i ddathlu 80 mlynedd ers sefydlu'r mudiad **Cymorth Cristnogo**l. Arweinwyd y gwasanaeth gan Llinos Roberts, Swyddog Ysgogi Eglwysi a Chodi Arian Cymru i'r mudiad. Ar y diwedd, cyflwynwyd rhodd o flodau a siocledi **Masnach Deg** i Llinos fel arwydd bychan o'n gwerthfawrogiad o'i gwaith yn ein haddysgu a'n hysbrydoli fel eglwysi i ymateb i fyd anghenus.



*Casi M Jones, Llinos Roberts a Cynthia Owen*

*( Diolch i Llinos am yrru ei hanerchiad atom i'w rannu gyda'n darllenwyr )*

## CYMORTH CRISTNOGOL YN 80 OED

## DECHREUADAU

Mae Cymorth Cristnogol yn 80 oed eleni, ac ers 1945 rydym wedi cyd-gerdded gyda'n brodyr a'n chwiorydd ar draws y byd ac wedi camu i mewn, mewn adegau trychineb. Nôl yn 1945 ar y Sul cynta ar ddiwedd y Rhyfel, aeth eglwysi Prydain ati i gynnal Sul i weddïo dros heddwch. Casglwyd tua £80,000 ar y Sul hwnnw – tua £3 miliwn yn arian heddiw. A dyna ddechrau ar y gwaith sydd wedi datblygu i fod y mudiad arloesol y mae o heddiw.

Dros y blynyddoedd rydym wedi cael ein bendithio gan gefnogaeth anhygoel i'r gwaith gan unigolion ac eglwysi a grwpiau cymunedol yma yng Nghymru sydd wedi cefnogi gwaith ein partneriaid ar draws y byd. Heb y bartneriaeth yma efo chi, fyddai'r gwaith ddim yn bosib ac mae'r gwahaniaeth, y gefnogaeth a'r gobaith yn anhygoel – dyma i chi rai ffigyrau am y flwyddyn ariannol ddiwethaf:
Ariannu 410 o brosiectau drwy weithio efo 260 o bartneriaid (33% yn bartneriaid o ffydd).
Mae'r prosiectau wedi cyrraedd 4.5 miliwn o bobl yn uniongyrchol – 52% yn wragedd a phlant a trwyddynt hwy wedi cyrraedd 19.3 miliwn yn anuniongyrchol.
Mae'r incwm yn dod i mewn drwy:

*1: Gweithgareddau Wythnos Cymorth Cristnogol - 5.3 miliwn*
*2: Apeliadau -15.7 miliwn*
*3: Rhoddion misol 12 miliwn*
*4: Rhoddion mewn ewyllys 15.8 miliwn* – gydag enwadau Cymru yn rhan o'r cynllun yma am y tro cyntaf eleni.

Wrth i Lywodraethau'r byd wneud toriadau i arian datblygu rhyngwladol, diolch i chi am fod yn rhan o fudiad byd-eang sy'n cefnogi urddas, cyfartaledd, cyfiawnder a chariad, rydych chi'n gwneud cymaint o wahaniaeth.

## HATLING Y WEDDW

***Darlleniad: Marc 12:41-44***

“Eisteddodd Iesu gyferbyn â'r blychau casglu lle roedd pobl yn cyfrannu arian i drysorfa'r deml, a gwylio'r dyrfa yn rhoi eu harian yn y blychau. Roedd llawer o bobl gyfoethog yn rhoi arian mawr. Ond yna daeth gwraig weddw dlawd a rhoi dwy geiniog i mewn *(oedd yn werth dim byd bron*). Dyma Iesu'n galw'i ddisgyblion ato a dweud, *“Credwch chi fi, mae'r wraig weddw dlawd yna wedi rhoi mwy nag unrhyw un arall. Newid mân oedd pawb arall yn ei roi, gan fod ganddyn nhw hen ddigon dros ben. Ond rhoddodd hon y cwbl oedd ganddi i fyw arno.”*

Nid mynd i gymunedau bregus a gadael mae **Cymorth Cristnogol** ond mynd ac yn aros. Ar achlysuron gwahanol o’r flwyddyn da ni’n cael ein bendithio wrth glywed hanes pwy ydy rhai o’n brodyr a’n chwiorydd a beth allwn ni wneud i ddod a gobaith i gymunedau.Yn y darlleniad o lyfr Marc, mae cyfraniad y wraig weddw yn fach iawn, bron heb werth iddo i wneud gwahaniaeth ond mae Iesu’n rhoi cryn sylw i’r cyfraniad yma. Mae’n canmol yn fawr rhodd garedig y wraig ac efallai mai pwynt y stori ydy ddangos i ni bod ein gweithredoedd i gyd yn bwysig, waeth pa mor fach ydy’r weithred, ac mae hynny’n wir wrth gwrs. Mae **Cymorth Cristnogol** yn diolch bob amser am bob rhodd, am bob gweddi ac am bob gweithred – pa mor fawr neu fach ydy hi.

## RHOI POPETH

Wrth edrych eto mae’n amlwg bod yna her yma neu annogaeth efallai? Mae rhodd y wraig yn golygu ei bod hi wedi rhoi popeth oedd ganddi. Be oedd arni’n rhoi popeth oedd ganddi medde chi? Wrth gwrs, mae’r bobl gyfoethog yn medru rhoi mwy na hi ond yn y llun mawr, tydi’r gost iddyn nhw ddim cyn waethed, fydda nhw ddim wir yn sylwi ei golli o ddydd i ddydd. Felly, mewn gwirionedd, mae’r wraig yma wedi rhoi mwy na phob un ohonyn nhw. Ydy’r stori felly yn gofyn i ni fod yn garedig hyd yn oed pan nad oes gennym ni lawer ar ôl, sydd yn her anodd iawn yn yr oes sydd ohonni ble mae costau byw yn cynyddu o hyd ac o hyd.

## BEIRNIADU’R RHAI MEWN GRYM

Da ni wedi clywed am yr toriadau i **USAid** gyda Llywodraeth Prydain wrth gwrs yn dilyn yn yr un modd gyda thoriadau’n dod i arian datblygu dyngarol, toriadau fydd dros y blynyddoedd nesa yn gwthio miliynau mwy o deuluoedd i dlodi eithafol. Yn yr adnodau cyn y rhan yma o’r bennod mae Iesu yn flin ac yn galw allan yn erbyn y rhai mewn grym sydd yn cadw’r weddw’n dlawd, ar bobl yma wedyn yn mynnu cael eu parchu a’u cymeradwyo, yn y deml.

Dyma rai pethau eraill ddysgodd Iesu iddyn nhw, *“Gwyliwch yr arbenigwyr yn y Gyfraith. Maen nhw wrth eu bodd yn cerdded o gwmpas yn swancio yn eu gwisgoedd swyddogol, a chael pawb yn eu cyfarch ac yn talu sylw iddyn nhw yn y farchnad. (39) Mae'n rhaid iddyn nhw gael y seddi gorau yn y synagogau, ac eistedd ar y bwrdd uchaf mewn gwleddoedd. (40) Maen nhw'n dwyn popeth oddi ar wragedd gweddwon ac wedyn yn ceisio rhoi'r argraff eu bod nhw'n dduwiol gyda'u gweddïau*

*hir! Bydd pobl fel nhw yn cael eu cosbi'n llym.”* ( Mathew 12, 38 a 39)

### BYWYD YN EI LAWNDER I BAWB

Felly pan mae Iesu’n canmol y wraig weddw, tybed ai ei brif reswm ydy i gwestiynnu pam ei bod hi yn byw mewn tlodi eithafol yn y lle cyntaf? Pam ddylai ei gweithredoedd hi olygu rhoi fyny popeth oedd ganddi i fyw arno tra bod eraill yn gyffyrddus ogyfoethog? Ydy’r hanes yma felly am herio’r sustemau sy’n cadw pobl dlawd, yndlawd, am godi llais a mynnu bod bywyd yn ei lawnder ar gael i bawb, bywyd llawn llawennydd, bywyd o gyfartalaedd, cyfiawnder ac urddas? Gweithred herfeiddiol sydd gan y wraig yma, mae’n weithred sydd yn herio’r rhai mewn grym i gamu fyny a gweithredu’n deg rhag iddi lwgu.

O ran y toriadau gan y Llywodraeth mae **Cymorth Cristnogol** yn credu bod yr arian ar gael yno, ond mae o’n leinio pocedi cwmniau sy’n llygru tiroedd a llygru cyflenwadau dwr, ac mae o’n leinio pocedi cwmniau preifat sy’n gwneud benthyciadau barus i wledydd tlawd a mynnu ad-daliadau na allan nhw fforddio. Mae dros 25 o wledydd Affrica yn gwario mwy ar ad-dalu bethyciadau nag y mae nhw ar iechyd ac addysg eu pobl.

Mae gwaith **Cymorth Cristnogol** wedi ei wreiddio yn yr Efengyl, Efengyl sy’n cysuro’r anghenus ac yn aflonyddu ar y cyffyrddus. Diolchwn bod gennym ni’r cyfle i roi, i weddïo ac i weithredu ar ran ein brodyr a’n chwiorydd. Diolch i chi am wneud gwahaniaeth!

## GWEDDÏWN

***Arglwydd,***
***Diolch i ti am y diwrnod sydd o’n blaenau, yr wythnos i ddod.***
***Beth bynnag fyddwn ni’n ei gyflawni - wyt ti bob amser***
***yn ffyddlon ac yn cadw dy addewidion.***
***Drwy’r Ysbryd Glân, rwyt ti’n ein bendithio gyda gobaith***
***diddiwedd.***
***Pan fydd y rhai mewn pŵer yn ceisio tawelu cyfiawnder,***
***rho’r dewrder i ni godi ein llais.***
***Pan fydd terfyn ar dlodi yn ymddangos mor bell i ffwrdd,***
***adnewydda ein ffydd yn dy deyrnas a ddaw ar y ddaear.***
***Pan fydd ein cymydog yn estyn allan,ysbrydola ni i ymateb***
***â chariad, cariad sydd gorlifo yn enw Iesu Grist ein Harglwydd,***
***Amen.***

**Mae ein diolch yn fawr i Ann a Gareth Roberts am ysgogi cyfranwyr a chasglu deunydd ar gyfer y rhifyn yma**

***Ar gyfer rhifyn Tachwedd 2025 dylid gyrru’r holl ddeunydd erbyn Hydref 24ain***
**i Eleri Lloyd Jones**

*ebost :* *eleri.jones30@btinternet.com*
*ffôn :* 01248 364665

## *OEDFAON A CHYFARFODYDD MIS HYDREF 2025*

**Bore Sadwrn, 4 Hydref, 10am tan 12pm**
Bore Coffi Masnach De

**Bore Sul, 5 Hydref**
Oedfa Gymun dan arweiniad y gweinidog

**Pnawn Iau, 9 Hydref, 3pm tan 4pm**
Cyfarfod *'paned a sgwrs'*

**Bore Sul, 12 Hydref**
Oedfa Diolchgarwch bob oed

**Bore Sul, 19 Hydref**
Oedfa Prosiect Ffoaduriaid BMS
dan arweiniad Eleri Lloyd Jones
a Sian Arwel Davies

**Bore Sul, 26 Hydref**
Oedfa dan arweiniad y gweinidog

## CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn yn ddwys a rhai o'n aelodau a gollodd anwyliaid yn ddiweddar.

Bu farw tad yng nghyfraith Gwyn Eirug a thad Branwen, ei wraig.
Bu Mr Thomas yn ddarlithydd yn y Coleg Normal am gyfnod. Byddai wrth ei fodd yn brasgamu dros Bont Borth tuag at gartref Gwyn a Branwen ar Ffordd Siliwen.

Bu farw brawd Catrin a brawd yng nghyfraith Wes, Dyfrig Jones, yn Ysbty Glan Clwyd.

Bu farw brawd yng nghyfraith Eleri Hughes, R.Foster Evans. Roedd yn brifathro ar Ysgol Tywyn ar un cyfnod.

## OFFERYNNAU PRES DAU FRAWD

Bu Aron a Morgan yn brysur gyda'r hofferynnau pres yn ystod Eisteddfod Wrecsam - Aron a'i gornet gyda Band Porthaethwy, a Morgan a'i drombôn ym Mand Deiniolen. Roedd y teulu yn y seddi blaen yn y pafiliwn, yn mwynhau cystadleuaeth agoriadol yr Eisteddfod! Llongyfarchiadau i bawb ar berfformiadau clodwiw.



***ARON***




***MORGAN***

# ATGOFION PLENTYNDOD

Wrth gerdded i Emaus ar y Sul cyntaf o Fedi a sylwi ar yr holl welliannau a wnaethpwyd o gwmpas yr adeilad yn ystod yr haf, daeth atgofion yn ôl am y tro cyntaf i mi gamu i mewn i'r adeilad (Penuel, bryd hynny) - a hynny ym mis Gorffennaf 1952.

Gan fy mod i yn un o'r ychydig rai ymhlith yr aelodau yma yn Emaus sy'n cofio'r hen Benuel yn cael ei ddymchwel a'r Penuel newydd yn cael ei adeiladu dyma feddwl am gofnodi ychydig o'r hanes drwy lygaid hogyn bach - ond sylweddolais bod blynyddoedd wedi mynd heibio gan ddwyn llawer o'r atgofion hynny!

Ond yn sicr cofiaf y prysurdeb, y gweithgarwch, y brwdfryder a'r balchder ymhlith yr aelodau o bob oed.


Yr hen Benuel ar Lôn Garth

Safai'r hen Benuel dros y ffordd i'r adeilad presennol, mwy neu lai. Gan fod angen lledu'r ffordd - Lôn Garth - bu raid ei ddymchwel. Bu llawer o'r dynion ymhlith yr aelodau yn helpu tynnu'r hen gapel i lawr-a nhad yn eu plith. Pawb eisiau gwneud ei ran.

Treuliasant oriau di ben draw yn gweithio'n ddiflino yn eu hamser sbâr yn gwneud yn siwr bod coed, cerrig a llechi yr hen gapel yn cael eu harbed a'u hail ddefnyddio i godi'r capel newydd. Gellwch fentro bod y safle yma o ddiddordeb enfawr i hogyn anturus a'i ffrindiau. Ond, hyd yn oed cyn dyddiau ***'Health and Safety'*** mynnai'r dynion fy mod yn cadw draw! Byddwn yn ymweld a'r safle o dro i dro yng nghwmni fy mrawd mawr - ac o dan ei oruchwyliaeth lem!


Parti 'Dolig yn yr ystafell tu ôl i'r hen 'County Theater'

Gan nad oedd gennym adeilad i addoli ynddo yn ystod y cyfnod hwn byddem yn cyfarfod mewn ystafell fawr tu ol i'r hen *'County Theater'* - lle digon tywyll - a chwt bach yn perthyn i'r Frigad Dan. Roedd o'n amser digon braf i ni'r plant - a chofiaf yr hwyl a'r bwrlwm a brofem ymhlith ein gilydd.

Achlysur cofiadwy i mi oedd bod rhan o griw niferus o blant ac aelodau'n gwylio'n gweinidog y Parch Elfed Davies yn torri'r dywarchen gynta ar gyfer y capel newydd.

Doedd na ddim pall ar frwdfrydedd yr aelodau yn ceisio meddwl am ffyrdd i godi arian i helpu'r gost o godi a dodrefn i'r capel.



TORRI'R DYWARCHEN GYNTAF

Roedd fy mrawd yn ffotograffydd brwd a thynnodd lun o'r capel newydd a llwyddodd i werthu nifer fawr o gopiau a chreu calendrau efo'r llun. Doedd ddim golwg o goed o gwmpas y capel bryd hynny!

Yna daeth y diwrnod hir ddisgwyliedig - agoriad ein capel newydd ni yn 1952 - y lle dan ei sang - a'r balchder ar wynebau pawb. Roedd hi'n braf i mi, fel plentyn, weld rhai o'm cymdogion o enwadau eraill yn rhannu'r un balchder.

Gareth Roberts


## LLUNIAU YCHWANEGOL a PHERTHNASOL



Y PENSAER - B. PRICE DAVIES



MURIAU'R PENUEL NEWYDD YN CODI



YR ADEILAD WEDI EI ORFFEN YN 1952



Y PARCH. ELFED DAVIES A DAU WEITHIWR I FYNY AR Y SGAFFALDIAU

# FY STEDDFOD I

Roedd mynychu'r Eisteddfod Genedlaethol yn arferiad oes i ni fel teulu, a hynny drwy gystadlu mewn côr neu yn unigol ym mhentref Llanuwchlyn.

Wedi i mi ymsefydlu yma ym Mangor, dyma gystadlu am dros ugain mlynedd gyda Chôr Seiriol, gan fwynhau sawl uchafbwynt yn y cyfnod hwnnw.

Steddfod brysur iawn a hapus oedd eisteddfod Bangor yn 2005. Bu côr Seiriol yn ddigon ffodus i gyrraedd y brig ar gystadleuaeth y côr Cerdd Dant a'r côr merched, yn ogystal â chanu yn seremoni gwobr Daniel Owen. Braint hefyd oedd cael fy urddo â'r wisg wen y flwyddyn honno.

Ond rhag mynd i hel gormod o atgofion, dyma droi'r sylw at Eisteddfod Genedlethol Wrecsam eleni.

*'Yr orau eto'* medd rhai ac rwy'n dueddol o gytuno. Dyma gipolwg sydyn o'r darluniau melys a ddaw i'r meddwl o fod wedi treulio wythnos fel beirniad Cerdd Dant yno.

O'r eiliad cyntaf o droedio'r maes ar y dydd Sul cyntaf, teimlwn awyrgylch o groeso twymgalon pobl yr ardal, a chlywed tafodiaith unigryw ardal y Ffin. Braf oedd cael cyfarfod â phobl ddiddorol yn ogystal â hen ffrindiau ar y maes, ac yng nghefn y llwyfan. Sgwrs sydyn âg ambell *'Seleb'*; e.e. roedd y newyddiadurwraig Maxine Hughes o'r UDA yn glên ac yn amlwg wrth ei bodd o fod wedi cael ei hurddo i'r orsedd. Braf hefyd oedd gweld balchder y beldroedwraig ifanc, Lili Jones o gael ei hurddo yn ei hardal ei hun.

Cael cwmni difyr fy ngyd feirniad yn yr adran Cerdd Dant, sef Lois Eifion, Delyth Medi a Llio Penri, a chael ein plesio'n fawr â safon y canu. A choron ar y cystadlu oedd dehongliad arbennig y tri chôr Cerdd Dant o ddetholiad o Awdl anfarwol Gerallt Lloyd Owen **'Yr Afon'**.

Er i mi orfod cadw at amserlen dynn, a gwibio o'r rhagbrofion i'r pafiliwn, oedd ar ben pella'r maes bob dydd, caed y cyfle ambell waith i fwynhau ambell ddigwyddiad ymylol. Difyr iawn oedd y sesiwn ym mhabell **Encore** yn trafod emynau Godfrey Williams, sydd wedi cyfansoddi dros 40 o emyn - donau cyfoes ac wedi ennill mewn sawl eisteddfod gan gynnwys y Genedlaethol. Hyfryd oedd gwrando ar bedwarawd dawnus Glesni Rhys, Elain Rhys, Cai Fôn a Steffan Dafydd yn perfformio rhai ohonynt.

Braf hefyd oedd gweld ambell

gyn ddisgybl o Ysgol David Hughes yn perfformio, roedd Steffan Lloyd Owen yn canu ***'Unwaith eto yng Ngymru annwyl'*** yn seremoni Cymru a'r byd, a chafwyd sesiwn swynol iawn gan y grŵp **Cordia** y mhabell **Encore**.

Uchafbwynt arall oedd bod yn rhan o gynulleidfa orlawn yn y Tŷ Gwerin i ddathlu a diolch i Mair Carrington Roberts am ei chyfraniad gwerthfawr i fyd Cerdd Dant yn ardal Wrecsam wrth iddi ffurfio parti'r Ffin. Cafwyd teyrnged wych i'r **'Ferch o'r Gwynfryn'** gan rai o'i disgyblion a chyn aelodau'r parti ar lafar ac ar gân.

A son am *'selebs'* roedd un ohonynt yn aros yn yr un gwesty â mi, a phawb o selogion y steddfod a'r cyfryngau yn ei adnabod sef Ann Dwynant o Bwllheli, gwraig a fu'n hawlio ei sedd ym mlaen y pafiliwn ers dros ddeugain mlynedd, dyna i chi ymroddiad. Dyna lwc felly ein bod ein dwy wedi medru cyd deithio 'n ddyddiol i'r maes a chael sawl sgwrs ddifyr. Yn wir, teimlwn fel asiant iddi ar adegau pan gysylltai'r cyfryngau er mwyn i Tudur Owen a Huw Stephens gael ei chyfweld!

Wrth i'r wythnos ddirwyn i ben, doeddwn i ddim eisiau gadael; dyna beth oedd wythnos o heulwen, balchder a diwylliant ar ei orau. Diolch am gael bod yn rhan ohoni.

*Gwennant Pyrs*

## SENANA 2025



**TREFECA** – lle hyfryd i encilio a lleoliad Cynhadledd Ddwyieithog Senana Cymru ddechrau Medi. Mae cyfleusterau ffafriol iawn gyda bwyd cartref blasus. Roeddym yn cyfarfod yn yr adeilad gwreiddiol sydd wedi'i addasu i gynnwys lolfa, parlwr bychan ar gyfer trafod a'r ystafell fwyta i lawr y grisiau. Roedd chwiorydd wedi cyrraedd o ddwyrain, gogledd, De a chanolbarth Cymru.



Roedd y noson gyntaf yng ngofal y Llywydd, Natalie Morgan. Rhanwyd ni i grwpiau ac roedd Eleri a minnau yn yr un grwp. Gosodwyd tasgau a’r cyntaf oedd defnyddio nwyddau o’r bag a gafwyd i greu model yn dangos un o straeon y Beibl. Aeth Natalie i’w dangos i’r gweddill yn eu tro i weld os oedd y portread yn ddealladwy! Fel arfer, Gareth sydd yn gosod posau yn y Negesydd ond y tro hwn dyma un gennyf i! Tybed faint ohonoch wnaiff adnabod stori ein grwp ni welir yn y llun? Y nesaf oedd sgwenu rysáit ar gyfer gwneud panad o de heb ddefnyddio’r geiriau “*kettle, tea leaves, milk, cup”* un arall oedd sgwenu **“Gwynfydau”** ar gyfer heddiw a’n hymdrech ni oedd

***“Gwyn fyd y rhai goddefgar oherwydd byddant yn ennyn harmoni”***.

Gofynnwyd i ni sgwennu pedair llinell o Salm gyfoes, a llunio dameg am rywbeth dynwyd o’r bag – clwt gwyn oedd un ni. Wnai i ddim cynnwys y wers honno yn y fan hyn gan ei bod yn rhy faith!! Bu llawer o chwerthin a thynnu coes yn ystod y cyfarfod cyn i ni gael ein harwain mewn epilog gan Jan Stanley.
Fore drannoeth, dechreuwyd gyda gweddi dawel gan Ann Lapage, Rhuthun. Yn dilyn brecwast, cafwyd Astudiaeth Feiblaidd dan arweiniad Natalie ac yna grwpiau trafod. Wedyn cafwyd sesiwn BMS gyda Laura-Lee, Gwyddonydd Amgylchedd ddanfonwyd i Peru yn 2012 i arwain Rhaglen Hyfforddi Cenhadaeth Gynhwysol. Roedd yn dysgu cymunedau i ddod yn fwy gwyrdd trwy adeiladu Stof Werdd, glanhau nentydd i ddiogelu iechyd plant, sut i gynnal coedwigoedd rhag eu difrodi, dysgu’r merched sut i wneud siocled a gwerthu nwyddau. Symudodd i Piura yn 2021 fel *Stiward y Greadigaeth* i gydweithio gyda pardneriaid lleol. Bu’n baeddu ei dwylo gyda phrosiectau eglwysi a chymuned i gynnal gweithdai ailgylchu, sefydlu cwmniau glanhau, cael grant gan BMS i osod paneli solar ac ailgylchu tra’n hyfforddi lleygwyr i gymryd drosodd. Dychwelodd adref i Porthcawl i ofalu am ei rhieni oedd yn heneiddio a dal i weithio gyda BMS ar Strategaeth BUEN – *Baptist Union Environnment Network.* Mae yn monitro ôl troed carbon y gymdeithas ac wedi llwyddo i ddod ag ef i lawr i’r hanner.

Ar ddiwedd y dydd cafwyd Oedfa Gymun dan arweiniad Natalie. Fore Iau cawsom ail hanner yr astudiaeth Feiblaidd a thrafod mewn grwpiau cyn adrodd yn ôl i’r gweddill. I gloi’r Gynhadledd arweiniwyd ni mewn defosiwn bwrpasol gan Eleri Lloyd Jones.

Esboniodd Eleri bwrpas a hanes cynhyrchu’r **Seren Heddwch** sydd yn Emaus cyn ei gyrru o gwmmpas y cylch a phawb yn offrymu gweddi dawel am yr hyn oedd yn agos at ein calon.Ar ôl cinio blaus, aeth pawb adra’n llawen wedi cael amser difyr dros ben.

Siân Arwel

***(‘Dyma gyfle i mi ychwanegu at y Gwynfydau newydd***
***y mae Siân yn cyfeirio atynt yn yr erthygl uchod ! )***

***Gwyn eu byd y rhai prydlon a dibynadwy canys eiddynt yw clod gan Y Negesydd.***

***J.E.M.***

## ADRODDIAD SYML O ANGLADD Y PARCH HUW JOHN HUGHES



‘Roedd yna rywbeth anghyffredin am angladd y diweddar Huw John Hughes, fu farw yn ddiweddar wedi cyfnod o waeledd. Roedd o’n angladd er cof am berson arbennig iawn ond ‘doedd na ddim teyrnged. ‘Doedd na neb yn cael codi ar eu traed i ganmol Huw John am ei gyfraniad i fyd addysg a dim sôn am ei waith arloesol yn diddannu ac ysbrydoli cenedlaethau o blant gyda’i frwdfrydedd ymchwilgar, heintus i amrywiaeth â gogoniant Cread Duw. Wrth gwrs, cafodd nifer o ddarllenwyr y Negesydd y fendith o fod dan ei arweiniad fel gweinidog Pendref ond er bod nifer fawr o’r rhai oedd yn yr angladd wedi elwa o’i ofal fel gweinidog ac fel ffrind, doedd na ddim teyrnged ganddynt hwythau chwaith. Roedd y Parchedig Aled Davies, *Cyhoeddiadau’r Gair*, ymhlith y gweinidogion oedd yn bresenol a hynny’n f’atgoffa o’r nifer fawr o gyfrolau cyfoethog roedd Huw John wedi’u paratoi dros y blynyddoedd, gan gynnwys yr un diweddaraf sy’n cyfuno ei ddiddordeb mewn ffydd a gwyddoniaeth ddaeth o’r Wasg yn ddiweddar, bron fel rhyw anrheg ffarwel i’w ddarllenwyr.

Dewis Huw John ei hun oedd peidio cael teyrnged wrth gwrs. Fel un fu’n paratoi ac yn arwain nifer fawr o angladdau yn yr amlosgfa dros y blynyddoedd, siawns bod ganddo’r hawl i fod yn awdur ac yn olygydd ei wasanaeth angladd ei hun. Ond er bod yna ddim teyrnged eiriol, roedd maint y dorf oedd wedi dod ynghyd o bell ac agos yn siarad cyfrolau. Roedd y dewis o ddarlleniadau gan y Parchedig Ddr Geraint Tudur yn adlewyrchu dyn oedd yn wylaidd gebron ei Dduw, ac yn was da i Iesu Grist, yn pregethu’r Gair ac yn annog. Doedd Huw John ddim am i deyrngedau iddo ymddangos mewn cylchgronnau chwaith.

***Casi Jones***

## ATGOFION I’W TRYSORI




Mae’n debyg bod llawer ohonoch yn cofio am ddiddordeb angerddol Huw John Hughes ym myd natur. Dyna a’i ysgogodd i agor Pili Palas ar gyrion y Borth. Cyfle i rannu’i ddiddordeb a’n haddysgu ninnau - a hynny yn ein mamiaith.
Adnodd perffaith i ennyn chwilfrydedd - Roedd gennym docyn tymor i ymweld a Pili Palas a gwnaethom ddefnydd helaeth ohonno yng nghwmni ein wyrion. Byddent byth a hefyd yn gofyn am gael ymweld. Cofiwn y gweiddi wrth neidio i mewn i’r car yna’r cyffro wrth redeg o’r maes parcio i mewn i’r adeilad - a Huw John yno’n ddiffael yn eu cyfarch ‘*Wel, helo, hogia Mynydd (Llandegai). Da chi yma eto!*’

Teimlem fod yna rhyw gyswllt arbennig rhyngddynt gan fod Huw John yn enedigol o’r un ardal. Roedd y Palas yn llawn rhyfeddodau i blant bach - ac oedolion. Byddem yn gwirioni wrth fynd o un rhan i’r llall gan syllu ar y pryfetach - y gloynnod byw anhygoel yn hedfan o gwmpas - yr ymlusgiaid a’r anifeiliaid yn eu corlannau.

Roedd wynebau’n wyrion yn bictiwr a’u brwdfrydedd yn ddi-ball.
Byddai’r Palas a’i drysorau yn ein denu’n ol dro ar ol tro! Roedd na un atyniad arbennig ddiwedd yr haf a dechrau’r hydref sef y darn tir gerllaw - neu’r ”*jyngl*” fel yr adweinid ef gan “Hogia Mynydd”.
Lle gwych i redeg a chuddio yn y gwair hir - a darganfod mwy!

***Ann a Gareth.***


## DECHRAU EI YRFA



Dechreodd Morgan, mab Carol a Dylan Owen, ar ei swydd yn athro Cymraeg yn Ysgol Friars ym mis Medi.

Mae'n braf clywed bod gwr ifanc mor dalentog yn awyddus i ymgymryd a swydd fel athro. Mae cymaint o brinder o athrawon Cymraeg y dyddiau hyn, yn ôl y sôn.

***Hwyl fawr i ti Morgan wrth ddechrau ar dy yrfa.***




**MIS MEDI**

*Diolch i Kath, Delyth ac Eleri am roi blodau yn ystod mis Medi.*

## MIS HYDREF

**5 a 12.** ***Glenda ac Ann Jones***

**19 a 26.** ***Elen Lansdown***

**Fe fydd rhestr ar gyfer 2026 yn y cyntedd cyn diwedd y mis.**

Diolch

Meriel a Kath

*merielparry@gmail.com*

# CRYNHOAD O DRAFODAETHAU YN YR OEDFA DDIWEDD GORFFENNAF

### ( YNGLYN A'R HOLIADUR A DDOSBARTHWYD )

**1.** Patrymau oedfaon. Roedd mwyafrif yn y grŵp yn hoffi oedfa lled ffurfiol. Nid oedd gwrthwynebiad i oedfa fwy anffurfiol i'r teulu cyfan nac oedfaoedd lle mae aelodau yn cymryd rhan.
Un aelod o'r grŵp ddim yn frwdfrydig am emynau *'hwyliog'* beth bynnag yw ystyr hynny yn benodol! Crybwyllwyd hefyd awydd am oedfa nos. A ellir ystyried cynnal oedfa nos yn achlysurol?

**2.** Nodwyd y gellid darparu paned ar ddiwedd oedfa unwaith y mis.
Syniad arall o ran meithrin elfen gymdeithasol oedd mynd am dro *( heb fod yn rhy bell )*.

**3.** O ran cadw cysylltiad ag aelodau, nodwyd effeithiolrwydd y Negesydd a'r llythyr wythnosol. Canmolwyd hefyd yr ymweliadau â chartrefihenoed a chyfraniad Eleri Lloyd Jones at Fugeiliaid y Stryd. Nid oedd syniadau newydd o dan y pwynt hwn, dim ond cefnogaeth i'r hyn sy'n digwydd eisoes.

**4.** Sut ddylai'r eglwys weithredu ar lefel leol a rhyngwladol. Nodwyd y rhyfeloedd sydd wedi achosi cymaint o boen yn y ddwy flynedd ddiwethaf, Wcrâin a'r hil-laddiad yn Gaza yn benodol, a'r angen i sefyll dros heddwch. Nodwyd hefyd bod argyfwng newid yn yr hinsawdd yn gysylltiedig â thrachwant gwledydd pwerus am adnoddau'r ddaear, a bod hynny yn ei dro yn arwain at ryfeloedd. Felly mae angen sefyll dros gymunedau cynaliadwy yn gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

*Dylan Morgan*

## CYNNWRF


Bu cryn gynnwrf yng nhartref Lleucu ac Arwel Owen yn ddiweddar pan glywsant am lwyddiant arbennig eu merch, Tesni, yn yr arholiadau Lefel A.
Bydd hi yn dechrau dilyn cwrs gradd ym Mhrifysgol Aberystwyth lle mae ei chwaer hŷn, Luned, yno'n astudio'n barod.
Wythnos yn ddiweddarach daeth mwy o lwyddiant i'r teulu. Cafodd Hawys a Nest, y ddwy chwaer fach, sy'n efeilliaid, foddhad o'r mwya pan gawsant eu canlyniadau arholiadau T.G.A.U.
Erbyn hyn, mae'n nhw wedi dechrau yn y 6ed dosbarth yn Ysgol Tryfan - ac wedi pendroni dipyn cyn dewis pynciau i'w hastudio.

***Llongyfarchiadau i'r dair ohonynt.***



## CYLCH DARLLEN

**Bydd ein cyfarfod nesaf yn Emaus am 2.00 o'r gloch Dydd Gwener Hydref 3. Byddwn yn trafod "The House of Water" gan Fflur Dafydd. Mae croeso cynnes i unrhyw un sy'n dymuno ymuno efo'r criw.**



# TWTIO EMAUS

Cyfuniad o beiriannau wrthi'n brysur o amgylch Emaus
ac, ar yr un pryd, un o'r adeiladwyr yn trwsio wal yn ofalus.





# CORNEL POSAU GARETH


## ATEB I BOS HAF 2025

### *POS PENBLWYDD*

Bydd Alwen yn 31 oed yn 2033.

## POS CODI WAL

***Mae bricwyr wedi bod wrthi'n codi wal newydd ar dir Emaus.***




***Mae rhif ar bob bricsen yn y wal y rhifau yn gyfanswm y ddau rif oddi tano. Beth yw'r rhif ar y fricsen uchaf? Beth sy'n bwysig i Emaus am y rhif hwnnw?***

Bydd yr ateb yn rhifyn Tachwedd.

## AR NODYN PERSONOL

***Diolch i'n gweinidog hawddgar, Casi, am ei gofal ohonom a'i chonsyrn amdanom fel aelodau. Mae** 'Gair gan y Gweinidog' **yn y Negesydd yn fisol, wastad yn taro deuddeg.***

***Edrychwn ymlaen ar fore Sul am ei neges. Bydd ei phregeth wedi ei saernio'n ofalus - yn sicr o fod yn amserol - a chawn ein hysbrydoli gan ei chenadwri obeithiol.***

***Hoffem hefyd ddiolch i swyddogion Emaus a'r aelodau sy'n rhoi oriau o'u hamser ac yn gweithio'n ddygn mewn amryfal ffyrdd i wneud yn siwr ein bod yn gallu bodoli fel eglwys - yn gofalu bod yr adeilad yn ddiogel ac yn glyd - a chant a mil o ddyletswyddau eraill a gaiff eu cyflawni er mwyn inni allu mwynhau'r profiad o addoli yn Emaus neu o'n cartrefi ar Zoom.***

**Ann a Gareth Roberts**

# TAITH CÔR Y PENRHYN I CANADA

Mae cysylltiadau Cymreig I’w cael ar draws y byd. Mae hyn o dro i dro yn rhoi siawns i ni fel côr gael gwahoddiad i ddathlu'r cysylltiad a dyna ddigwyddodd y flwyddyn yma pan aethom draw i Canada (Ottawa) ar wahoddiad ***Cymdeithas Cymraeg Gogledd America.*** Maent yn trefnu cyfarfod yn flynyddol sy’n denu Americanwyr sydd â diddordeb yng Nghymru neu sydd â chysylltiad teuluol gyda’r famwlad. Hwn oedd y trydydd tro i ni gael cymryd rhan yn yr ŵyl, fe fuon ni draw yn Cincinnat, i Ohio yn 2006 a Columbus Ohio yn 2015.

Gan fod yr ŵyl dim ond dros bedwar diwrnod fe wnaeth y côr drefnu amser ychwanegol gan fynd I Toronto (*Prifddinas Ontario*) rhai dyddiau cyn mynd i Ottawa.

Fe gymerwyd y cyfle i gysylltu â ***Chymdeithas Cymraeg Toronto*** a hefyd gwneud ymholiadau eraill ynglyn a’r posibilrwydd o gael canu mewn mannau eraill.

Fel rhan o’r trefniadau fe ofynnwyd i’r awdurdodau am yr hawl i ganu fel côr tu allan i dŷ bwyta **‘Table Rock**’ sydd led cae o **Niagara Falls**. A dyna a ddigwyddodd. Ar ôl dau ddiwrnod yn ymlacio a gweld ac adnabod rhannau o Toronto, cafwyd y pleser o deithio i **Niagara Falls** a mwynhau diwrnod cyfan i fforio'r adnoddau o gwmpas. Aeth rhai am dro ar gwch i fynd yn agos i’r rhaeadr (**Horeshoe Falls**). Hefyd mynd i lawr drwy dwnnel i weld llif y dŵr wrth ochr a thu ôl i’r rhaeadr. Hwyrach yn y diwrnod aethpwyd a rhai i weld rhan o’r hen orsaf pŵer a throedio drwy dwnnel er mwyn medru dod at leoliad wrth ochr y rhaeadr. Golygfa eithriadol i ddweud y lleiaf.



Ger Niagara

Uchafbwynt y diwrnod oedd cael y cyfle i ganu ar lasdir o flaen **‘Table Rock’** gyda'r rhaeadr tu ôl i ni. Cafwyd cyfle i ganu am oddeutu hanner awr a chael cynulleidfa groesawus a gwerthfawrogol.

Mae Toronto yn ddinas brysur ac wedi datblygu dros yr 50 mlynedd diwethaf. Mae yn awr yn fwy o faint na Chicago. Mae yno amryw o atyniadau i’w gweld, rhy niferus i’w nodi i gyd ond maent yn ddigon i fodloni unrhyw berson. Uchafbwynt i mi oedd cael amser i gerdded a mwynhau'r adnoddau oedd ar gael ar yr ynysoedd gyferbyn a’r harbwr.


Golygfa o’r ynysoedd yn Toronto o dŵr CN

Croesi gyda fferi sy’n cymryd oddeutu 15 munud. Gerddi glan a thaclus a golygfeydd bendigedig o orwelion Toronto.

Lleoliad arall oedd **Twr CN**. Adeiladwyd gan gwmni trafnidiaeth Canada sef **‘Canadian National’** rhwng 1973 a 1976.

Uchder 553m. Bwyty ar lefel 351m. Llawr gwydr lefel 342m.


Tŵr CN

Cafwyd cyngerdd yn y **‘Timothy Eaton Memorial Church’** gan **Gymdeithas Cymraeg Toronto**. Adeiladwyd yr eglwys yn 1915. Roedd y trefnwyr yn rhan o gapel Cymraeg olaf yng Nghanada, wedi cau dair blynedd yn ôl. Maent erbyn heddiw yr rhan o gynulleidfa'r eglwys ond yn dal i gael gwasanaethau Cymraeg yno. Adeiladwyd yr eglwys fel cofeb i Timothy Eaton gan ddechrau drwy roi'r tir a'r cyllid gan ei wraig Margaret Wilson Eaton a’i mab John Craig Eaton. Timothy Eaton oedd sylfaenydd siopa adrannol cadwyn **‘Eatons’.** Cyngerdd gwych gyda chynulleidfa werthfawrogol a chynnes iawn. Roedd ein diolch yn fawr i’r trefnwyr a gwnaed elw sylweddol er budd yr eglwys.

Ymlaen i Ottawa, lleoliad Senedd Canada. Tref lai na Toronto a ddim mor brysur. Tref hardd a chyfeillgar gydag amryw o adeiladau hanesyddol. Cafwyd digonedd o amser i archwilio'r ddinas gan gymryd

y cyfle i gael mynd i mewn i'r Senedd dan ofal tywysydd, mynd ar daith cwch ar hyd yr afon Ottawa. Talaith Quebec ar un ochr ac Ontario ar yr ochr arall. Lle difyr arall oedd amgueddfa hanes Canada lle'r oedd pwyslais cryf ar dreftadaeth y wlad a'r bobol


Senedd Canada

wreiddiol fu yn bodoli yno. Dyma leoliad gweithgareddau NAFW sef y **North American Festival of Wales**. Roedd amryw o weithgareddau yn cymryd lle drwy gydol yr ŵyl gan gynnwys noson lawen, eisteddfod, gwersi telyn, barddoni ac yn y blaen. Roedd Rhys Meirion yno i hybu gweithgaredd yr oedd yn ei drefnu ynglyn a'r daith i Batagonia y flwyddyn nesaf. Cymerodd ran yn y Gymanfa a gynhaliwyd ar ddiwedd yr ŵyl fel y gwnaethom ni. Roedd y Senedd yng Nghaerdydd wedi noddi'r ŵyl ac fe oedd amryw o faneri i'w gweld ar hyd stryd 'Spark' yn agos i'r gwesty lle'r oedd canolfan yr ŵyl.


Cofeb Rhyfel Byd yn Ottawa

**Stryd 'Spark'** oedd y lleoliad ar y dydd Iau i'r hyn oedd yn cael ei alw yn **'WelshFest'.** Cyngerdd awyr agored *(rhad ac am ddim)* oedd yn rhoi blas o'r hyn oedd yn digwydd yn ystod yr ŵyl. Y perfformwyr oedd yn cymryd rhan oedd:- **Band Pres Llareggub, Pedair (Gwenan Gibbard, Gwyneth Glyn, Meinir Gwilym a Sian James,** a hefyd **Welsh of the West End.** Yn anffodus, er bod y tywydd cyn hyny wedi bod yn braf a chynnes, fe ddaeth y glaw, glaw trwm iawn ac roedd y gynulleidfa yn gorfod cysgodi gorau allant o dan yr amgylchiadau.

Yn dilyn hyn fe gynhaliwyd noson gomedi yng ngofal **Tudur Owen**. Roedd yr ystafell lle cynalwyd y noson dan ei sang a chafwyd noson hwyliog dros ben. Y noson ganlynol cafwyd noson yng ngofal grŵp bach o aelodau'r côr yn difyrru aelodau o'r ŵyl drwy gyfrwng caneuon. Noson hwyliog a difyr dros ben.



Prif gyngerdd, Nos Sadwrn

Nos Sadwrn cynhaliwyd y prif gyngerdd lle'r oedd y côr yn difyrru'r gynulleidfa yng nghwmni **Meinir Wyn Roberts**. Roedd cymaint o alw am docynnau fe benderfynodd yr ŵyl i ddefnyddio lleoliad y côr *(Chancel)* er mwyn cael digon o le i bawb.
Noson lwyddiannus dros ben, un a fydd yn ein cof am hir iawn.

Cafwyd amser da ar y daith ac mae ein diolch yn fawr iawn i’r trefnwyr a fu wrthi yn ddygn yn gwneud ymchwil a pharatoi mor drylwyr. Dwi ddim ond wedi rhoi braslun yma o’r daith, roedd gymaint o bethau yn mynd ymlaen pob dydd, mwy na digon i fodloni rhywun.

*Dafydd Jones-Morris*




**COLEG CERDD**

Ar ddydd Sadwrn, y 21ain o Fedi, cefais fynd i Fanceinion i'r Coleg Cerdd RNCM i gael fy niwrnod cyntaf llawn yno. Roedd yn anhygoel! Dwi wedi bod yn andros o lwcus a chael lle i astudio'r piano a'r cornet yno. Mae'n goleg braf iawn, a phob dydd Sadwrn mae pobl ifanc yn llenwi'r lle ar gyfer eu rhaglen *"Juniors"* ac mae gan bawb amserlen unigol. Rwyf yn edrych ymlaen at y cyfle i gael cyfarfod ffrindiau newydd ond bydd rhaid imi ymarfer!!

***Alys Dafydd***

## GOLWG ARALL GAN MERIEL PARRY O'R DAITH I CANADA 2025

*Mae sawl aelod o'r Eglwys yn perthyn i Gôr y Penrhyn ond nid oedd yn bosib i bawb fynd ar y daith yma. Dafydd Jones-Morris, Wil Parry, Llion* (gwr Lowri) *Huw* (gwr Esyllt) *a Meriel oedd y rhai fentrodd ym Mis Awst i dreulio amser yn Toronto ac Ottawa.*

*Prif bwrpas yr ymweliad oedd i berfformio yng* **Ngŵyl Cymry Gogledd America** *yn y brifddinas Ottawa ond fe fanteisiodd y côr ar y cyfle i ganu ger y* **Niagara Falls** *a chyngerdd yn* **Timothy Eaton Memorial Church Toronto** *gan ganu sawl cân poblogaidd oedd yn plesio'r gynulleidfa. Roedd sawl un yn siarad Cymraeg ac yn falch o'u cysylltiad â Chymru.*

*Yn ninas Toronto cafwyd cyfleoedd i fentro i uchelderau'r* **Tŵr CN** *lle cafwyd pryd o fwyd tra roedd y tŵr yn troi 360 gradd mewn awr, a chyfle i weld y ddinas gyfan o danom.*

*Roedd cael trip ar gwch ar* **Lyn Ontario** *hefyd yn rhoi cyfle i ni weld y ddinas ar ei gorau.*

*Roedd canu wrth Rhaeadr Niagara yn brofiad bythgofiadwy i'r côr a'r gynulleidfa dda ddaeth i wrando arnynt. Gyda sŵn y rhaeadr tu cefn iddynt fe ganwyd sawl cân yn cynnwys,* **Benedictus, Y Ddau Wladgarwr, Pererin Wyf** ac **Yma o Hyd.**

### OTTAWA

*Roedd y gwesty yn Ottawa yn llawn o Gymry, sawl un yn dysgu'r iaith o'r newydd. Roedd y Gymdeithas wedi trefnu nifer o weithgareddau ar gyfer y côr. Yn ogystal roedd perfformwyr eraill o Gymru yna hefyd gyda* **Pedair, Band Pres Llareggub, Welsh of the West End a Meinir Roberts***. Roedd Noson Gomedi yn ngofal* **Tudur Owen** *yn y gwesty hefyd. Cawsom gyfle i weld Gwyn, sef mab Helen a Gwilym Owen, sydd yn rhan o fand pres Llareggub.*
*Mae Ottawa yn ddinas hardd, eitha bychan a chymaint o atyniadau diddorol yn cynnwys amgueddfeydd, adeiladau hynafol, orielau celf ayyb.*

*Ar y nos Sadwrn cynhaliwyd* **Cyngerdd Gala y Côr** *gyda* **Meinir Wyn Roberts** *a* **Caleb Rhys yn Eglwys Gadeiriol Christ Church.** *Roedd yr eglwys, sydd yn dal oddeutu 600, yn orlawn a'r cynulleidfa wedi gwirioni pherfformiad y côr.*

*Dydd Sul oedd diwrnod* **Cymanfa Ganu'r Ŵyl***, gyda'r eglwys unwaith eto dan ei sang ac yn ymateb yn frwdfrydig i* **Owain Arwel***, arweinydd y côr oedd yn arwain y canu.*

*Teithio yn ôl i Toronto ar y dydd Llun a chael yr awyren i Manceinion a bws adref prynhawn dydd Mawrth. Pawb wedi blino'n lân ond yn cytuno fod y daith wedi bod yn un llawn atgofion a phrofiadau unigryw.*

*Meriel Parry*

# DYDD HEDDWCH RHYNGWADOL

Yn dilyn y gwasanaeth yn Emaus, fore Medi 21,
cynhaliwyd achlysur yng ngardd Emaus i gofio
**Dydd Heddwch Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig.**
Ymunodd rhai o gapeli eraill ac o grefyddau gwahanol a ni.
Roedd pobl ar draws Cymru yn cymryd rhan mewn digwyddiadau
i dystio i'r alwad am gyfiawnder a heddwch yn ein byd.


Munud o dawelwch








Banner y Ffoaduriaid








## DIWRNODAU HYFFORDDI LLWYBRAU DAN NAWDD COLEG Y BEDYDDWYR CAERDYDD YN PENRALLT BANGOR HYDREF Y 4YDD A TACHWEDD Y 29AIN

Y modiwl llwybrau nesaf fydd **"Llwybrau i mewn i Addoliad"** ac fe'i cynhelir ar ddydd Sadwrn 4 Hydref a dydd Sadwrn 29 Tachwedd. Dyma Lwybr Hyfforddiant Diwinyddiaeth ac Arwain Coleg Bedyddwyr Caerdydd sydd yn cael ei gyflwyno gan Eglwys Bedyddwyr Penrallt, Bangor. Mae'n agored i bob enwad ac mae wedi ei dargedu yn benodol at bobl sydd yn ysgwyddo unrhyw rôl arweiniol mewn eglwys leol *(arweinyddion addoliad, athrawon Ysgol Sul, arweinyddion ieuenctid ac eraill)* Byddwn yn edrych ar sut i baratoi a darparu addoliad Sul mewn ffordd sy'n gogoneddu Duw ac yn ein hysbrydoli a'n trawsffurfio gan greu gofod ar gyfer cyfarfod â phresenoldeb Duw. Byddwn hefyd yn edrych ar sut y gall arwain ein haddoliad gyda'n gilydd fel ei fod yn ein paratoi ar gyfer ein haddoliad ar wahân yng ngweddill yr wythnos. Bydd modd gwneud gwaith grŵp mewn grŵp Cymraeg neu mewn grŵp Saesneg. Bydd Diwrnod 1 yn cynnwys sesiwn byr ymarferol.

**DIWRNOD 1:**

- **Addoliad fel cyffesu teyrngarwch i Iesu**
- **Addoliad ar gyfer Cyfarfod a Ffurfio**
- **Addoliad fel Stori ac ymgorfforiad o'n stori ni**

**DIWRNOD 2:**

- **Addoliad a'r Ysbryd Glân a'r Cymundeb**
- **Addoliad, Cyfiawnder a Chenhadaeth. Galw ac Eiriolaeth**
- **Addoliad ac Adnewyddiad; Yn ein cynnal ac yn ein hadeiladu**


9am ar gyfer dechrau am 9:45am – 3pm.
£100 ar gyfer cost y ddau ddydd Sadwrn,deunydd darllen ac arweiniad ar gyfer aseiniadau.

Cofrestrwch gyda Coleg Bedyddwyr Caerdydd (hl@cbc.cymru).
Os oes gennych unrhyw gwestiynau, teimlwch yn rhydd i gysylltu â'r Parchedig John Thompson (minister@penrallt.com neu'r Coleg.

Cysylltwch gyda Casi os oes diddordeb gyda chi i ddilyn y cwrs er mwyn i ni gynnig nawdd i chi.

# Cangen Bangor o Raddedigion Prifysgol Cymru

**yn cyflwyno**




## Dafydd Elis-Thomas a'i gariad at Brifysgol Bangor

Noson yng nghwmni Aled Eirug, awdur y cofiant
*Dafydd Elis-Thomas: Nation Builder*

Nos Wener, 10 Hydref am 6yh
Neuadd Mathias, Adran Gerdd Prifysgol Bangor

Bydd modd prynu copi o'r gyfrol ar y noson

Croeso cynnes i bawb!

# CYFEIRIADUR EMAUS

**ADEILAD A BWCIO YSTAFELLOEDD:**
Wesley Evans
wesley.evans@phonecoop.coop
680858

**BMS:**
Siân Arwel Davies
arwelfa@hotmail.co.uk
713464

**CYTÛN A CHYMORTH CRISTNOGOL:**
Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@btinternet.com
364665

**GWEINIDOG:**
y Parchg Casi M Jones
gweinidog.emaus.bangor@gmail.com
07984 085267

**MASNACH DEG:**
Catrin Evans
catrin.evans@phonecoop.coop
680858

**NEGESYDD - CYSODI:**
Eirwyn Morris
negesydd@btinternet.com

**NEGESYDD - ROTA GOLYGU:**
Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243

**PANED A SGWRS**
Menna Roberts
garethamenna@btinternet.com
351243
Jennifer Thomas
gwjen@tiscali.co.uk
362125

**ROTA BLODAU**
Kath Jones
353313
Meriel Parry
merielparry@gmail.com
352205

**ROTA'R ORGAN:**
Enid Griffiths
712726

**SWYDDOG DIOGELU:**
Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@btinternet.com
364665

**TI A FI:**
Elen Lansdown
elen.lansdown@icloud.com
364843

**TRYSORYDD:**
David Llewelyn Jones
trysorydd.emaus.bangor@gmail.com
01766 522968

**YSGRIFENNYDD ARIANNOL:**
Dilwen Lloyd Jones
dilwen.emaus.bangor@gmail.com
364665

**YSGRIFENNYDD CYHOEDDIADAU:**
Rhianwen Huws Roberts
erwwen01@gmail.com
352726

**YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL:**
Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243